**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 11eg Ionawr 2024 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Cilcennin**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Iwan Thomas (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Nigel Davies, Helen Evans, Arwel Jones a Tina Jones.
Clerc, Denfer Morgan

**161 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Robert Davies, Eirlys James-Evans, Alwen Thomas, Ray Williams a'r Cynghorydd Sir Marc Davies am fethu bod yn bresennol yn y cyfarfod

**162 Trefn**

Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirdd, cadeiriwyd y cyfarfod gan y cyn-Gadeirydd, y Cynghorydd Iwan Thomas.

**163 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 14eg Rhagfyr 2023.

**164 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

Cofnod 159 – nodwyd nad oedd y Cynghorydd Michelle Davies yn gallu mynd i'r Cyfarfod Ymgynghorol gyda'r Cyngor Sir ac i gynnig cyfle i'r Cynghorydd Eirlys James-Evans fynd iddo fe.
Cofnod 160 – nodwyd fod y Clerc wedi cyfeirio'r materion at y Cyngor Sir a disgwylid atebion.

**165 Cyllideb, Praesept a Threth Gyngor 2024-25**

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Clerc ar gymeradwyo Cyllideb a Phraesept a gosod Treth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25.

**PENDERFYNWYD:**

i) cymeradwyo gwariant o £6,000
ii) cymeradwyo Praesept o £6,000
iii) gosod Treth Gyngor yn y swm o £13.89.

**166 Materion Cynllunio**

Nodwyd fod cais cynllunio A230845 - Tyglyn Aeron Hotel, Ciliau Aeron wedi cael ei dynnu nôl gan y datblygwr.

**167 Mynwent Eglwys Cilcennin**

**PENDERFWYNWYD:**

i) nodi na dderbyniwyd gwybodaeth bellach oddi wrth Awdurdodau'r Eglwys; a
ii) cytuno cyflwyno'r cais cynllunio i'r cyngor Sir fel a baratawyd gan y Cynghorydd Iwan Thomas.

**168 Adeilad Ysgol Cilcennin**

Dëellir fod y Cyngor Sir yn bwrw mlaen gyda gwerthusiad o'r adeilad ar gyfer paratoi opsiynau ar gyfer ei ddefnydd yn y dyfodol.

**169 Unrhyw Fater Arall**

Adroddodd y Clerc fod llythyr wedi'i dderbyn y bore hwnnw oddi wrth Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor Sir yn datgan y bydd rhaid i'r Cyngor " fynd i'r afael â diffyg sylweddol yn ei gyllideb" ar gyfer 2024-25 ac yn rhestru gwasanaethau "allai fod mewn perygl" a lle byddai'n fuddiol i gynghorau tref a chymuned gael gwybod amdanynt. Nodwyd cynnwys y llythyr.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:05pm